**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**18 Gorffennaf 2016**

**PROSIECTAU CYDWEITHREDOL RHWNG Y TRI GWASANAETHAU BRYS**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

**Diben yr Adroddiad**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y prosiectau cydweithredol a ddatblygir rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), Heddlu Gogledd Cymru (HGC) ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (YGAC).

**Cefndir**

2 Bu cydweithio ers blynyddoedd rhwng GTAGC a HGC o ran y Ganolfan Reoli ar y Cyd, adran ystadau gyffredin a gwasanaeth Cyfathrebu Corfforaethol y tu allan i oriau. Hefyd, cydweithiwyd ag YGAC o ran safleoedd sy'n cael eu rhannu, a phrosiect Wrecsam yw'r diweddaraf o'r rheini.

3 Ym mis Mehefin 2015, sefydlwyd grŵp cydweithredol strategol i edrych ar gyfleoedd i GTAGC, HGC ac YGAC gydweithio rhagor gyda'r nod o ganfod arbedion effeithlonrwydd posibl a gwella gwasanaethau i gymunedau Gogledd Cymru. Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Cydweithredu'r Tri Gwasanaeth gan y grŵp, a oedd yn cynnwys Prif Gwnstabl Cynorthwyol o HGC, Pennaeth Gweithrediadau o YGAC yng Ngogledd Cymru a Phrif Swyddog Tân Cynorthwyol o GTAGC.

4 Roedd y Bwrdd hwn hefyd yn cefnogi GTAGC i ateb yr awydd yn Fframwaith Cenedlaethol Llywodraeth Cymru i ATAau weithio'n fwy cydweithredol ar lefel strategol ac i ddatblygu rôl y diffoddwr tân.

## Gwybodaeth

5 Gwnaethpwyd gwaith cwmpasu gan y Bwrdd i ganfod lle'r oedd cyfleoedd yn bodoli i bob un o'r tair asiantaeth allu cydweithio, ac roedd pob opsiwn ar gael i gael eu trafod.

6 Fe wnaeth y Bwrdd ddyfeisio cylch gorchwyl a dosbarthu gweithgareddau dan dri phennawd prosiect, gan neilltuo Rheolwyr Prosiect o bob gwasanaeth i arwain yn y meysydd a ganlyn:

- Prosiect Ystafell Reoli – YGAC yn arwain
- Gwasanaethau Cefnogol – HGC yn arwain
- Atal ac Ymateb – GTAGC yn arwain

7 Cafodd yr holl waith cwmpasu a briffiau prosiectau eu cyflwyno i'r Prif Swyddog Tân, y Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddog Gweithredol o YGAC, a chytunwyd eu bod yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol y tri gwasanaeth.

## Prosiect Ystafell Reoli

8 Roedd dwy elfen i'r prosiect ystafell reoli.

a. Roedd yr elfen gyntaf yn ymwneud â dod â delwyr galwadau brys YGAC i mewn i ystafell reoli ar y cyd HGC a GTAGC er mwyn darparu ystafell reoli ar gyfer y tri gwasanaeth yng Ngogledd Cymru.

b. Roedd yr ail elfen yn ymwneud ag integreiddio staff yn amgylchedd yr ystafell reoli er mwyn i rai gweithgareddau allu cael eu trin gan unrhyw un o weithredwyr yr ystafell reoli ni waeth pwy sy'n eu cyflogi er mwyn gallu defnyddio unrhyw gapasiti na ddefnyddir gan yr asiantaeth yn ystod adegau distaw.

9 Ar ôl ystyried yn ofalus, mae YGAC nawr wedi penderfynu ei bod yn dymuno mynd ynglŷn â 'model hwb clinigol' a fydd yn dwyn ynghyd yr holl ddelwyr galwadau sy'n ymwneud ag iechyd, fel Galw Iechyd (NHS Direct) a llinellau cymorth meddygon teulu y tu allan i oriau, a chan nad oes capasiti ar gyfer hynny ar y safle yn Llanelwy nid ystafell reoli ar gyfer y tri gwasanaeth yn Llanelwy yw'r opsiwn mae'n ei ffafrio.

10 Fodd bynnag, mae YGAC wedi addo darparu nifer fechan o glinigwyr i weithio o'r ystafell yn y ganolfan gyfathrebu ar y cyd er mwyn bod yn rhan o'r penderfyniadau ynglŷn ag anfon ambiwlans a lleihau'r galw ar YGAC yn y pen draw.

11 Mae aelodau o staff HGC a GTAGC fel ei gilydd yn parhau i wneud cynnydd ac i ddatblygu cyfleoedd i weithio'n fwy cydweithredol yn yr ystafell reoli, ac mae systemau cyffredin a hyfforddiant i hwyluso'r gwaith yma wrthi'n cael eu datblygu.

**Gwasanaethau Cefnogol**

12 Roedd gwaith cwmpasu gwasanaethau cefnogol yn ystyried lle gwelwyd enghreifftiau cadarnhaol eisoes o gydweithio, ac roedd yn ceisio adeiladu ar lwyddiannau blaenorol.

13 Yn ystod y gwaith cwmpasu, buwyd yn ystyried amrywiaeth o adrannau gwasanaethau cefnogol, gan gynnwys:

- Fflyd / Cludiant
- Cyfathrebu
- Gwasanaethau Iaith
- Ystadau
- Caffael
- Dylunio ac Argraffu
- Adnoddau Dynol
- Cyllid
- Hyfforddi

14 Penderfynwyd yn fuan i ganolbwyntio ar ddau neu dri maes yn y tymor byr, a hyd yma gwnaethpwyd y rhan fwyaf o'r cynnydd mewn perthynas â rhannu gwasanaethau'r fflyd, rhannu gwasanaethau iaith ac ystadau.

15 Mae YGAC, HGC a GTAGC yn gweithio ar hyn o bryd o nifer o ystadau a rennir, gan gynnwys canolfan adnoddau GTAGC/YGAC yn Wrecsam, y cyfleuster cyntaf ar gyfer y tri gwasanaeth yng Nglannau Dyfrdwy, a chyfleusterau GTAGC/HGC yn Nhywyn a Nefyn.

16 Mae gwaith a wneir mewn perthynas â gwasanaethau'r fflyd wedi canfod meysydd lle mae potensial i gael cydweithio rhwng y tri gwasanaeth neu i rannu gwasanaethau rhwng dau neu dri asiantaeth, gan ddarparu gwasanaethau helaethach neu fwy effeithlon o bosibl.

## Atal ac Ymateb

17 Roedd nifer o weithgareddau dan sylw yn y prosiect atal ac ymateb, a gellid gweithredu rhai ohonynt yn y tymor byr, rhai ohonynt yn y tymor canolig ac mae rhai ohonynt yn nodau mwy uchelgeisiol yn y tymor hir. Dan sylw roedd:

- Cyd-ymatebwyr GTAGC
- Swyddogion Cymorth Cymunedol Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal archwiliadau diogelwch yn y cartref ar ran GTAGC
- Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref GTAGC yn darparu ymyriadau lleihau troseddu a chyngor gwella diogelwch ar ran HGC
- HGC a GTAGC i gynnal asesiadau perygl cwympo
- Hyfforddiant lleihau troseddu ar gyfer holl staff GTAGC
- Cyd-leoli staff lle bo hynny'n briodol
- Staff GTAGC, ar ran HGC, i gael eu hanfon i chwilio am bobl fregus sydd naill ai ar goll o'u cartref yn yr oriau cyntaf ar ôl iddynt ddiflannu
- Datblygu rôl amlasiantaethol newydd i ymdrin â galwadau nifer fawr ond blaenoriaeth isel am wasanaethau fel nad oes angen i swyddogion arbenigol fynd atynt er mwyn iddynt fod yn rhydd i fynd at alwadau blaenoriaeth uchel.

18 Hyd yma, gwnaed cynnydd sylweddol gyda'r pum pwynt bwled cyntaf. Mae GTAGC yn aros am ganlyniad trafodaethau cenedlaethol am ddyfodol cyd-ymateb, ond penderfynwyd yn ddiweddar i ymestyn y cynllun treialu am wyth mis arall.

19 Bydd staff GTAGC yn dechrau ar eu hyfforddiant ganol mis Gorffennaf er mwyn iddynt allu cael eu defnyddio cyn diwedd haf 2016 i gynorthwyo â digwyddiadau 'ar goll o gartref'.

20 Caiff tîm treialu ymateb ei lansio ar 1 Awst 2016 a fydd yn golygu bod GTAGC yn cael eu hanfon yn Sir Ddinbych ar ran YGAC at achosion o gwympo heb anaf yn y cartref, gyda'r nod yn y pen draw o olygu nad oes angen i ambiwlans fynd allan. Bydd y tîm hefyd yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau ataliol ac ymyriadau, yn ogystal â mynd at alwadau 'pryder am ddiogelwch' dros HGC.

## Argymhelliad

21 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn.